



CITY AND COUNTY OF SWANSEA
DINAS A SIR ABERTAWE

ATODIAD B – Ffordd o Ddianc – Rhagofalon Tân

Diogelwch Tân Tai - Canllaw Cyflym (Cymru)

(Wedi'i baratoi ar y cyd â Phanel Technegol Tai Cymru Gyfan)

Mae'r Canllaw Cyflym hwn yn rhoi crynodeb o'r mesurau diogelwch tân a amlinellir yn "Housing – Fire Safety: Guidance on fire safety provisions for certain types of existing housing" a gyhoeddwyd gan LACORS ym mis Awst 2008.

Mae'r canllaw yn darparu crynodeb byr i swyddogion gorfodi a landlordiaid o'r mesurau diogelwch tân priodol y gellir eu rhoi ar waith ar gyfer nifer o fathau o eiddo, ac yn ceisio cysondeb o ran rhoi mesurau diogelwch tân ar waith. Fodd bynnag, dylai swyddogion a landlordiaid ymgyswngtu â darpariaethau'r arweiniad cenedlaethol, sydd ar gael yn www.lacors.gov.uk.

Cyflwynodd Deddf Tai 2004 System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, sy'n ddull y gellir ei ddefnyddio i asesu cyflwr tai. Mae'n defnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar risg a'i nod yw darparu system sy'n dileu risgiau o beryglon i iechyd a diogelwch mewn anheddau neu'n eu lleihau. Rhaid i rai tai hefyd gyflawni safon dderbyniol o ddiogelwch tân o dan ddarpariaethau trwyddedu HMO. Gorfodir y darpariaethau hyn gan gynghorau lleol.

Mewn rhai eiddo, rhaid i landlordiaid gynnal asesiad risg tân o dan ddarpariaethau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Gorfodir y darpariaethau hyn gan awdurdodau tân ac achub.

Mae arweiniad cenedlaethol LACORS yn argymhell y dylid rhoi atebion i ddiogelwch tân sy'n seiliedig ar risg ar waith ar gyfer pob eiddo unigol; felly, ni ddylid ystyried y ddogfen hon yn rhagnodol.

Sylwer mai arweiniad yn unig yw'r testunau a ddisgrifir yn y ddogfen hon. Gellir cynnal mesurau diogelwch tân eraill er mwyn cyflawni lefel gyfwerth o ddiogelwch tân.

Fodd bynnag, os dilynir argymhellion y Canllaw Cyflym hwn, dylai fod yn bosib cyflawni lefel dderbyniol o ddiogelwch tân mewn eiddo o risg arferol. Efallai bydd angen mesurau ychwanegol mewn eiddo o risg uwch.

Sut i ddefnyddio'r Canllaw Cyflym hwn

Cyflwyniad

- Mae'r wybodaeth a roddir yn y canllaw hwn o ran darparu ffordd ddiogel o ddianc os oes tân yn cyfeirio at y lefel 'ddelfrydol' o fesurau diogelwch tân sy'n ofynnol ar gyfer pob math o eiddo. Yn gyffredinol, bydd 'delfrydol' yn golygu llwybr dianc diogel 30 munud ar gyfer pob HMO.
- Gall fod yn bosib i 'lacio'r' safonau delfrydol hyn mewn amgylchiadau penodol, e.e. lle ystyrir eiddo yn risg isel ar ôl cwblhau asesiad risg System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS)
- Sylwer bod enghreifftiau D1, D2, etc, yn y tablau yn y canllaw'n cyfeirio at yr enghreifftiau ym mhrif arweiniad LACORS.

Er mwyn defnyddio'r canllaw, rhaid i chi wybod y canlynol:

- 1) Nifer y lloriau yn yr eiddo.
- 2) Y math o feddiannaeth.
- 3) Lefel risg yr eiddo hwnnw.

Yna gellir defnyddio'r tabl priodol yn y canllaw i ddarparu rhestr o'r math o waith sy'n ofynnol ar gyfer math penodol o eiddo.

1. Nifer y lloriau

- Llwr gwaelod + llwr cyntaf = 2 llwr
- Llwr gwaelod + llwr cyntaf + ail llwr = 3 llwr, etc.

DS: Ystyrir tŷ 2 llwr gydag isllwr neu atig y gellir byw ynddo/ynddi fel eiddo 3 llwr (4 llwr, os yw'r ddau'n bresennol).

2. Deiliadaeth

Mae 3 phrif math (gweler y diffiniadau llawn ar dudalen 3 gyferbyn).

- HMO a rennir
- HMO 'tebyg' i fflat un ystafell
- HMO fflat un ystafell draddodiadol

DS: Mae tai amlfeddiannaeth a rennir a thai amlfeddiannaeth tebyg i fflat un ystafell yn debyg iawn, gyda mân wahaniaethau o ran math o denantiaeth, drysau y gellir eu cloi, grŵp sengl neu grwpiau unigol/llai.

3. Risg

Asesir hyn gan y swyddog archwilio. 3 math cyffredinol:

- Risg isel
- Risg arferol
- Risg Uchel

DS: Mae'r canllaw hwn yn nodi manylion ar gyfer tai amlfeddiannaeth o risg 'arferol'. Bydd y rhan fwyaf o dai amlfeddiannaeth yn y categori hwn. (Rhaid i eiddo risg isel feddu ar yr holl nodweddion a restrir yng ngwaelod tabl Enghraifft D4 ar dudalen 4.)

Crynodeb

Pan gaiff y 3 maen prawf eu sefydlu, defnyddiwch adran gywir y canllaw i gael syniad o'r gwaith angenrheidiol.

DS: Fe'ch argymhellir yn gryf i aros am arolygiad HHSRS gan swyddog o'r adran hon cyn ymgymryd â gwaith.

Diogelwch Tân Tai – Canllaw Cyflym

Sylwer – at ddibenion y canllaw hwn, bydd y diffiniadau canlynol yn berthnasol:

Deiliadaeth aelwyd sengl – tŷ lle mae un person, pâr di-briod neu deulu yn byw, a lle nad yw'r eiddo yn dŷ amlfeddiannaeth.

Tŷ Amlfeddiannaeth a Rennir – Tŷ Amlfeddiannaeth lle rhentir yr holl eiddo gan grŵp y gellir ei adnabod fel myfyrwyr, cydweithwyr neu ffrindiau, fel cyd-denantiaid. Fel arfer, bydd gan bob preswlydd ei ystafell wely ei hun, ond bydd yn rhannu cegin, cyfleusterau bwyta, ystafell ymolchi, toiled, ystafell fyw a holl rannau eraill y tŷ. Bydd un cytundeb tenantiaeth. Bydd gan y grŵp yr un nodweddion ag aelwyd un teulu, ond bydd yn HMO, yn dechnegol, gan nad yw'r preswylwyr yn perthyn i'w gilydd.

HMO tebyg i fflat un ystafell (gyda chyfleusterau coginio a rennir) – adeilad sydd wedi'i rannu'n unedau gosod neu ystafelloedd gwely (un ystafell yn unig fel arfer) ar wahân a'i osod i unigolion nad oes cysylltiad rhyngddynt neu sawl grŵp bach. Fel arfer, rhennir ceginau, ystafelloedd ymolchi a thoiledau.

HMO fflat draddodiadol un ystafell (gyda chyfleusterau coginio unigol) – adeilad sydd wedi'i rannu'n unedau gosod neu ystafelloedd gwely (un ystafell yn unig fel arfer) ar wahân a'i osod i unigolion nad oes cysylltiad rhyngddynt. Gall pob uned neu ystafell wely gynnwys cyfleusterau coginio ond rhennir ystafelloedd ymolchi a thoiledau.

<u>Deiliadaeth aelwyd sengl</u>	
<u>2 LAWR</u>	<u>3/4 LLAWR</u>
(ENGHRAIFFT D1)	(ENGHRAIFFT D2)
<ul style="list-style-type: none">Nid yw llwybr diogel yn ofyniad, ond dylai adeiladwaith y llwybr dianc fod yn gadarn ac yn gonfensiynol, ac ni ddylai fynd trwy ystafelloedd risg.Lle bo'r ffordd o ddianc yn mynd trwy ystafell risg, gellir ystyried defnyddio ffenestri dianc i ystafelloedd y gellir byw ynddynt.Lle mae safonau adeiladu'n wael, mae pellteroedd teithio'n hir, neu mae ffactorau risg uchel eraill yn bresennol, efallai y bydd angen llwybr diogel 30 munud.Bwlch o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys y drws) NEU dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da.Blanced dân yn y gegin.System larwm LD3 Gradd D (sef larymau mwg sy'n cysylltu â'r llwybr dianc yn ogystal â'r seler/islawr).	<ul style="list-style-type: none">Nid yw llwybr diogel yn ofyniad, ond dylai adeiladwaith y llwybr dianc fod yn gadarn ac yn gonfensiynol, ac ni ddylai fynd trwy ystafelloedd risg.Lle mae safonau adeiladu'n wael, mae pellteroedd teithio'n hir, neu mae ffactorau risg uchel eraill yn bresennol, efallai y bydd angen llwybr diogel 30 munud.Bwlch o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys y drws) NEU dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da.Blanced dân yn y gegin.System larwm LD3 Gradd D (sef larymau mwg sy'n cysylltu â'r llwybr dianc yn ogystal â'r seler/islawr).

Nid yw Gorchymyn Diogelwch Tân yn berthnasol ar gyfer y math hwn o eiddo.

<u>HMO 2 LAWR A RENNIR</u>	<u>HMO 2 LAWR TEBYG I FFLAT UN YSTAFELL</u> (GYDA CHYFLEUSTERAU COGINIO A RENNIR)
(ENGHRAIFFT D4)	(ENGHRAIFFT D7)
<p>1. <u>Safon ddefnyddol</u> (ar gyfer eiddo risg arferol)</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30 (dim seliau mwg) (b) Dylai waliau/nenfydau rhwng unedau llety fod o adeiladwaith cadarn, traddodiadol. (c) Bwlch o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys y drws) <u>NEU</u> dderbyn adeiladwaith traddodiadol cadarn mewn cyflwr da. <u>2 Lawr + islawr/atig y gellir byw ynddo/ynddi</u> – dylid trin yr eiddo fel <u>tŷ 3 llawr a rennir</u>. (ch) <u>Argymhellir</u> cael diffoddiadur 6 litr neu ddiffoddiadur powdr sych 1.5kg AFFF amlbwrpas ar bob llawr y llwybr dianc. (d) Blanced dân yn y gegin. (dd) <u>System larwm LD3 Gradd D</u> (sef larymau mwg sy'n cysylltu â'r llwybr dianc, yn ogystal â'r lolfa a'r seler/islawr, a larwm gwres sy'n cysylltu â'r gegin). <p><u>NEU</u></p> <p>2. <u>Mewn tai risg isel a rennir</u> (gweler isod)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Drysau cadarn, tynn <u>A/NEU</u> ffenestri dianc i ystafelloedd sy'n arwain at llwybr dianc. Dylai waliau/nenfydau ar y llwybr dianc fod o adeiladwaith cadarn, traddodiadol. • <u>Drws tân ychwanegol (FD30) ar y drws olaf rhwng y gegin a'r llwybr dianc.</u> • Manylion fel yn (b) ac (f) uchod. 	<p><u>Tai 'tebyg i fflatiau un ystafell'</u> - ystafelloedd unigol gyda chyfleusterau coginio a rennir (e.e. lle na ddefnyddir eiddo gan un grŵp, mae contractau unigol, cloeon ar ddrysau, etc).</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Naill ai - llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30S <u>neu</u> - mewn eiddo risg isel, drysau tynn, cadarn a ffenestri dianc. (b) Bwlch o 30 munud i'r waliau/nenfydau rhwng unedau llety. (c) Bwlch o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys y drws). (ch) Rhaid cael diffoddiadur 6 litr AFFF neu ddiffoddiadur powdr sych 1.5kg amlbwrpas ar bob llawr y llwybr dianc (yn amodol ar asesiad risg o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân). (d) Blanced dân yn y gegin. (dd) <u>Larwm LD2 Gradd 2</u> – larymau mwg sy'n cysylltu â'r llwybr dianc ynghyd â'r lolfa a'r seler/islawr, a larwm gwres ym mhob cegin a rennir <u>YNGHYD Â</u> larymau Gradd D cysylltiedig ym mhob ystafell wely.
	<p>GALL Gorchymyn Diogelwch Tân fod yn berthnasol i'r mathau hyn o eiddo.</p>
	<p><u>FFLAT UN YSTAFELL DRADDODIADOL 2 LAWR</u> (CYFLEUSTERAU COGINIO MEWN YSTAFELLOEDD GWELY)</p>
	<p>(ENGHRAIFFT D7)</p>
	<p><u>Fflatiau un ystafell traddodiadol</u> – y rhai gyda chyfleusterau coginio ym mhob ystafell wely/uned lety.</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Naill ai - llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30S. (b) Bwlch o 30 munud i'r waliau/nenfydau rhwng unedau llety. (c) Bwlch o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys y drws). (ch) Rhaid cael diffoddiadur 6 litr AFFF neu ddiffoddiadur powdr sych 1.5kg amlbwrpas ar bob llawr y llwybr dianc (yn amodol ar asesiad risg o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân).

	<p>(d) Blanced dân yn y gegin.</p> <p>(dd) <u>System larwm gymysg. Gradd D, system LD2</u> gyda larymau mwg sy'n cysylltu â'r llwybr dianc a'r islawr/seler gyda larymau gwres sy'n cysylltu â phob fflat un ystafell YNGHYD Â larwm mwg gyda gwifrau at y prif gyflenwad nad yw'n cysylltu â phob fflat un ystafell.</p>
Nid yw Gorchymyn Diogelwch Tân yn berthnasol i'r math hwn o eiddo.	Mae Gorchymyn Diogelwch Tân yn berthnasol i'r mathau hyn o eiddo.
<u>HMO 3 LAWR A RENNIR</u>	<u>HMO 3 LAWR TEBYG I FFLAT UN YSTAFELL</u> (GYDA CHYFLEUSTERAU COGINIO A RENNIR)
(ENGHRAIFFT D5)	(ENGHRAIFFT D8)
<p>Safon ddelfrydol (ar gyfer eiddo risg arferol)</p> <p>(a) Llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30 (dim seliau mwg)</p> <p>(b) Bwlch o 30 munud i'r waliau/nenfydau rhwng unedau llety.</p> <p>(c) bwlch o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys y drws).</p> <p>(ch) Argymhellir cael diffoddiadur 6 litr AFFF neu ddiffoddiadur powdr sych 1.5kg amlbwrpas ar bob llawr y llwybr dianc.</p> <p>(d) Blanced dân yn y gegin.</p> <p>(dd) <u>System Larwm D LD3</u> (sef larymau mwg sy'n cysylltu â'r llwybr dianc ynghyd â'r lolfa a'r seler/islawr, <u>a</u> larwm gwres i'r gegin)</p> <p>(e) Nid oes angen goleuadau argyfwng neu arwyddion, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.</p>	<p>(a) Llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30S.</p> <p>(b) Bwlch o 30 munud i'r waliau/nenfydau rhwng unedau llety.</p> <p>(c) Bwlch o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys y drws).</p> <p>(ch) Rhaid cael diffoddiadur 6 litr AFFF neu ddiffoddiadur powdr sych 1.5kg amlbwrpas ar bob llawr y llwybr dianc (yn amodol ar asesiad risg o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân).</p> <p>(d) Blanced dân yn y gegin.</p> <p>(dd) <u>System larwm LD2 Gradd A</u> – synwryddion mwg sy'n cysylltu â'r llwybr dianc ynghyd â phob fflat un ystafell a seler/islawr, <u>a</u> synhwyrydd gwres i gegin a rennir. I gynnwys panel rheoli, pwyntiau galw a 75db o leiaf wrth ben y gwely.</p> <p>(e) Nid oes angen goleuadau argyfwng neu arwyddion, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.</p>
	GALL Gorchymyn Diogelwch Tân fod yn berthnasol i'r mathau hyn o eiddo.
	<u>FFLAT UN YSTAFELL DRADDODIADOL 3 LLAWR</u> (CYFLEUSTERAU COGINIO MEWN YSTAFELLOEDD GWELY)
	(ENGHRAIFFT D8)
	<p>(a) Llwybr diogel 30 munud gyda drysau tân FD30S.</p> <p>(b) Bwlch o 30 munud i'r waliau/nenfydau rhwng unedau llety.</p> <p>(c) Bwlch o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys y drws).</p> <p>(ch) Rhaid cael diffoddiadur 6 litr AFFF neu ddiffoddiadur powdr sych 1.5kg amlbwrpas ar bob llawr y llwybr dianc (yn amodol ar asesiad</p>

	<p>risg o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân).</p> <p>(d) Blanced dân yn y gegin.</p> <p><u>(dd) System larwm LD2 Gradd A</u> - synwryddion mwg sy'n cysylltu â'r llwybr dianc ynghyd â'r lolfa a'r seler/islawr, <u>a</u> synhwrydd gwres sy'n cysylltu â phob fflat un ystafell gyda chyfleusterau coginio. I gynnwys panel rheoli, pwyntiau galw a 75db o leiaf wrth ben y gwely.</p> <p><u>YNGHYD Â</u></p> <p>(e) Synwryddion mwg Gradd D nad ydynt yn gysylltiedig ym MHOB fflat un ystafell.</p>
Nid yw Gorchymyn Diogelwch Tân yn berthnasol i'r math hwn o eiddo.	Mae Gorchymyn Diogelwch Tân yn berthnasol i'r mathau hyn o eiddo.

<u>Tai sydd wedi'u haddasu'n fflatiau hunangynhwysol</u>	
<u>2 LAWR</u>	<u>3/4 LLAWR</u>
(ENGHRAIFFT D10)	(ENGHRAIFFT D11)
<p>(a) Llwybr dianc cyffredin diogel gyda drysau tân FD30S (gyda seliau mwg), sef drysau mynediad i fflatiau.</p> <p>(b) O fewn fflatiau unigol – drysau cadarn, tynn sydd wedi'u hadeiladu'n dda.</p> <p>(c) Bwlch o 30 munud i'r waliau/nenfydau rhwng pob fflat.</p> <p>(ch) Bwlch o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys y drws).</p> <p>(d) Rhaid cael diffoddiadur 6 litr AFFF neu ddiffoddiadur powdr sych 1.5kg amlbwrpas ar bob llawr y <u>llwybr dianc cyffredin</u> (yn amodol ar asesiad risg o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân).</p> <p>(dd) Blanced dân yn y gegin.</p> <p>(e) <u>System larwm LD2 Gradd D</u> – synwryddion mwg sy'n cysylltu â'r llwybr dianc cyffredin ynghyd â synhwrydd gwres yng nghyntedd pob fflat.</p> <p><u>YNGHYD Â</u></p> <p>(f) Synwryddion mwg Gradd D nad ydynt gysylltiedig yng nghyntedd pob fflat.</p> <p>(ff) Nid oes angen goleuadau argyfwng neu arwyddion, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.</p>	<p>(a) Llwybr dianc cyffredin diogel gyda drysau tân FD30S (gyda seliau mwg), sef drysau mynediad i fflatiau.</p> <p>(b) O fewn fflatiau unigol – drysau cadarn, tynn sydd wedi'u hadeiladu'n dda.</p> <p>(c) Bwlch o 30 munud i'r waliau/nenfydau rhwng pob fflat.</p> <p>(ch) Bwlch o 30 munud i'r seler/islawr (gan gynnwys y drws).</p> <p>(d) Rhaid cael diffoddiadur 6 litr AFFF neu ddiffoddiadur powdr sych 1.5kg amlbwrpas ar bob llawr y <u>llwybr dianc cyffredin</u> (yn amodol ar asesiad risg o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân).</p> <p>(dd) Blanced dân yn y gegin.</p> <p>(e) <u>System larwm LD2 Gradd A</u> – synwryddion mwg sy'n cysylltu â'r llwybr dianc cyffredin ynghyd â synhwrydd gwres yng nghyntedd pob fflat. I gynnwys panel rheoli, pwyntiau galw a 75db o leiaf wrth ben y gwely</p> <p><u>YNGHYD Â</u></p> <p>(f) Synwryddion mwg Gradd D nad ydynt gysylltiedig yng nghyntedd pob fflat.</p> <p>(ff) Nid oes angen goleuadau argyfwng neu arwyddion, oni bai bod y llwybr dianc yn gymhleth.</p>

Nodyn ar ddiffoddiaduron tân a systemau larwm:

Mewn tai a rennir, **argymhellir** cael diffoddiadur tân amlbwrpas (1.5kg powdr sych neu AFFF 6 litr) ar bob llawr y llwybr dianc.

Ym mhob tŷ amlfeddiannaeth lle bo'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn berthnasol, gan gynnwys tai sydd wedi'u haddasu'n fflatiau hunangynhwysol a fflatiau un ystafell, mae diffoddiaduron amlbwrpas (fel uchod) **yn ofynnol** oni bai bod y landlord yn gallu dangos drwy asesiad risg y gellir sicrhau lefel dderbyniol o ddiogelwch heb ddarparu diffoddiaduron.

LD3 – System sy'n cynnwys synwryddion mewn mannau cerdded (e.e. cynteddau) sy'n ffurfio rhan o'r llwybr dianc o'r annedd yn unig.

LD2 – System sy'n cynnwys synwryddion mewn mannau cerdded sy'n ffurfio rhan o'r llwybr dianc, ac ym mhob ystafell lle bo risg uchel o dân i breswylwyr.

Gradd D – System o un larwm mwg/gwres, neu fwy, a gaiff ei bweru gan y prif gyflenwad, gyda chyflenwad batri wrth gefn. Nid oes panel rheoli.

Gradd A – System o synwryddion mwg/gwres a gaiff eu pweru gan y prif gyflenwad, sy'n cysylltu â phanel rheoli er mwyn rhoi gwybodaeth am leoliad y tân neu unrhyw nam. Yn gyffredinol, rhaid i'r system gynnwys pwyntiau galw gyda llaw, a dylent fod ar bob llawr ac mewn mannau gadael terfynol.